

Hawdd ei Ddeall

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro



Rheolau am beth i'w wisgo i'r coleg

Gwybodaeth i ddysgwyr



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Goleg Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r 'Polisi Cod Gwisg Dysgwyr'.

Ebrill 2022

Rheolau am beth i'w wisgo i'r coleg



Rydyn ni am wneud yn siŵr bod ein **holl** ddysgwyr yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch.



Rydyn ni am wneud yn siŵr bod credoau a chefnidiroedd dysgwyr yn cael eu parchu.



Mae rhaid i ni wneud yn siŵr hefyd ein bod ni'n dilyn rheolau iechyd a diogelwch.



Mae'r rheolau hyn wedi'u seilio ar ddeddf o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010**.

Rydyn ni am wneud yn siŵr:



- Bod yr holl ddysgwyr yn cael eu trin yn dda,

- Bod yr holl ddysgwyr yn gallu gwneud eu gorau,



- Bod yr holl ddysgwyr yn gallu cymryd rhan yng ngweithgareddau'r coleg,



- Bod dysgwyr yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain. Ac yn parchu ei gilydd,
- Rydyn ni'n gweithio **gyda** myfyrwyr ac yn eu cefnogi nhw.

Bydd y coleg yn:



- Gwneud systemau a fydd yn ein helpu i nodi pwy yw ein dysgwyr. Er mwyn i ni allu cadw pobl yn ddiogel a dilyn rheolau arholiadau.



- Gwneud yn siŵr bod ein systemau yn meddwl am gredoau ein dysgwyr. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod ein polisïau'n meddwl am y pethau y mae pobl yn eu gwisgo ar gyfer eu credoau crefyddol.



- Gwneud systemau sy'n helpu i wneud yn siŵr nad yw ein dysgwyr yn gwisgo dillad a allai achosi gofid i bobl eraill.



- Gwneud cynlluniau am iechyd a diogelwch a gwisgo dillad diogelwch.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am ein rheolau a'n cynlluniau er mwyn iddyn nhw allu eu dilyn nhw.



- Helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn deall crefydd a chredoau pobl. Ac anghenion pobl. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy bethau fel hyfforddiant staff, posteri a thiwtorialau.



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n ysgrifennu unrhyw broblemau i lawr er mwyn i ni allu gwirio ein bod ni wedi delio â nhw yn y ffordd gywir.



- Gwirio ein rheolau a'n cynlluniau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gyfoes.

Mae rhaid i'r holl staff:



- Drin dysgwyr â pharch,



- Gwybod am ein rheolau ar gyfer beth i'w wisgo i'r coleg a sut i ddelio ag unrhyw broblemau,



- Cadw gwybodaeth yn breifat pan fydd angen,



- Rhannu gwybodaeth gyda staff eraill pan fydd angen,



- Cymryd rhan mewn hyfforddiant am y materion hyn.

Mae rhaid i ddysgwyr:



- Gymryd rhan mewn sefydlu a thiworialau am y materion hyn,



- Dilyn y rheolau hyn a'n cynlluniau ni,



- Dweud wrthon ni beth maen nhw'n feddwl am y rheolau a'r cynlluniau.